Ysgrifennir y sylwadau yma ar ran adran Eglwys a Chymdeithas Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gwerthfawrogir y cyfle i gynnig sylwadau a thystiolaeth ar y ddogfen.

Y mae'r Adran yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen ynghyd â'r nodau.

Gweler yr ymatebion isod gyda chyfeiriad penodol at y cwestiynnau yn y ddogfen:-

Cwestiwn 2

Y mae'r amryw rwystrau a nodir yn ei gwneud hi'n anodd i ddiffinyddion ,tystion a`r cyhoedd i gael mynediad rhwydd at y system gyfreithiol sydd yn medru deillio ar ddiffyg hyder yn y system.Y mae hyn yn cynnwys mynediad at gyngor cyfreithiol fforddiadwy o fewn pellter rhesymol i`w cartrefi. Y mae`r isod yn cynnig heriadau pellach:-

(a) Costau teithio i'r llysoedd, a chanolfannau gwybodaeth o gofio canoli'r adnoddau yma. Dylid nodi'r drafferth i gael mynediad at wasanaeth teithio cyhoeddus. Y drafferth mewn ardaloedd gwledig diarffordd i gael mynediad at y we i gael mynediad, er enghraifft at wybodaeth a ddarperir gan y llywodraeth

(b) Y mae rhwystrau technegol yn enfawr mewn rhannau o Gymru. Dylid cofio cefndir yr ardaloedd yma gyda'r mwyafrif heb wasanaethau teithio cyhoeddus yn ogystal â sgil-effeithiau toriadau mewn llywodraeth leol, er enghraifft cau llyfrgelloedd cyhoeddus lle medrir cael mynediad at y we

(c) Y mae'r ddaearyddiaeth eang ynghyd a sgil effeithiau  cau cynifer o lysoedd yn rhwystr  i fynediad at gyfiawnder. Y mae'n anodd i dystion a diffynyddion deithio i'r llysoedd.Fe fedrai hyn yn ei dro fod yn rwystr i dystion.Dylid ystyried yn fanwl yr her i deuluoedd deithio i wrandawiadau yn y  canolfannau gofal gyda chyfeiriad at ofal plant a`r diffyg yn y gwasanaethau teithio cyhoeddus i gyrraedd y llys yn y bore ac i ddychwelyd yn hwyr y p`nawn.

Cwestiwn 3

Yr her fwyaf yw mynediad at y gwasanaethau yn y lle cyntaf oherwydd yn rhannol y rhwystrau uchod. Dylid nodi hefyd bod angen gwasanaethau dwy-ieithog. Effeithir y rhai hynny yn y Gymru wledig sydd am ymweld â charcharorion gan bellter. Ymhellach nid  oes yna garchar i fenywod yng Nghymru. Y mae yma effaith andwyol ar gadw'r uned deuluol mewn cysylltiad a`u gilydd sydd yn medru effeithio ar y bartneriaeth a'r plant.

Cwestiwn 4

Y mae angen gwell gwybodaeth am y cyfreithwyr sydd yn cynnig gwasanaeth ar *Gymorth Cyfreithiol.* Y mae prinder o'r  swyddfeydd cyfreithiol sydd yn gwneud

hynny yn rhwystredig. Y mae angen sicrhau bod yna swyddfeydd ymhob ardal i gynnig gwasanaeth cyfreithiol,

Cwestiwn 5

Y mae effaith datganoli wedi bod yn bositif. Y mae'r mynediad at ddarpariaeth yr Uchel Lys ac ati i'w groesawu. Dylid dwysau'r gwaith yma ac edrych at ddatganoli pellach a chreu'r sefydliadau yng Nghymru. Dylai'r llysoedd uwch i gynnwys y Goruchaf Lys gyfarfod yn gyson yng Nghymru gyda'r bwriad o bob achos o Gymru i gael ei glywed yng Nghymru.

Cwestiwn 6

Rhaid cael eglurdeb ar rôl awdurdodau lleol. Dylid parchu annibyniaeth y system gyfreithiol. Cofier fod llywodraeth leol yn erlynydd ei hunain mewn nifer o achosion troseddol a sifil. Ni ddylai llywodraeth leol cael rôl i gynnig cyngor ond yn ei rôl mewn gwasanaethau cyhoeddus gellid cynnig cefnogaeth i deuluoedd, troseddwyr ifanc ac ati yn ogystal â darparu gwasanaethau rhag ataliol.

Cwestiwn 8

Gydag ymrannu cynyddol rhwng cyfraith Cymru a Lloegr fe ddylid rhoi trefn ddedfrydu wahanol yng Nghymru i'r hyn sydd yn Lloegr. Y mae hyn yn barhad o ddatganoli ac yn gam naturiol yn dilyn yr ymrannu. Dylid sicrhau hyfforddiant barnwriaeth i sicrhau cysondeb dedfrydu yng Nghymru.

Cwestiynnau 11 – 13

Dylid sicrhau bod cwricwlwm prifysgol yn addas ac yn atyniadol. Dylid ymhellach sicrhau mynediad at gymhwyster proffesiynol mewn mwy nag un lleoliad yng Nghymru. Y mae angen sicrhau bod y system gyfiawnder yn cael ei gyllido'n ddigonol.

Y mae ardaloedd yn gyfredol yn cael ei amddifadu rhag mynediad at lysoedd sydd yn agos at eu cartrefi ac hefyd y gallu i deithio i lys o fewn amser derbyniol. Y mae angen sicrhau gwell darpariaeth ddigidol a dwyieithog. Y mae rhaid denu myfyrwyr at y pwnc ond mae angen i swyddogion gyrfaoedd amlinellu'r cyfleoedd yn well. Dylid sicrhau gwell cyllideb at gymorth cyfreithiol.

Ymateb ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru

3/6/18